Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Partneriaeth Gymdeithasol: Y ‘Ffordd Gymreig’

LLAWLYFR DEFNYDDWYR

Mawrth 2025

llyw.cymru

# Cynnwys

**Pennod 1**

Egwyddorion allweddol y Ddeddf 1

Prif ddarpariaethau'r Ddeddf 2

**Pennod 2**

Paratoi ar gyfer y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 3

Cyflwyniad 3

Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 3

Diben y Ddyletswydd newydd 4

Y Cyrff Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd 4

Adroddiadau Blynyddol 5

Partneriaeth Gymdeithasol: Y Ffordd Gymreig 5

Partneriaeth Gymdeithasol ar Waith 5

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 6

**Pennod 3**

Dysgu Ar-lein 7

**Pennod 4**

Offeryn Hunanasesu 8

Nodweddion Partneriaethau Cymdeithasol Effeithiol 8

Sut i ddefnyddio'r Offeryn 9

Paratoi 9

Cwblhau'r Asesiad 10

Defnyddio'r canlyniadau 10

Cynnal yr Asesiad 11

Dull Partneriaeth Gymdeithasol 12

Perthnasoedd 13

Egwyddorion a Gwerthoedd 14

Gweithredu Cydweithredol 15

Adolygu Llwyddiant 16

Deall y canlyniadau 17

**Pennod 5**

Darllen Pellach a Manylion Cyswllt 18

Cysylltwch â ni 18

Pennod 1

# Egwyddorion Allweddol a Phrif Ddarpariaethau'r Ddeddf

## Egwyddorion Allweddol y Ddeddf

### Partneriaeth Gymdeithasol

Gweithio i gyflawni nod y cytunwyd arno ar y cyd, er budd yr holl grwpiau cysylltiedig.

### Caffael Cymdeithasol Gyfrifol

Gweithredu, wrth brynu nwyddau a gwasanaethau, i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

### Gwaith Teg

Amrywiaeth eang o weithgareddau posibl yn cael eu cyflawni gan gyflogwyr mewn cytundeb â'r gweithlu, sy'n cyfrannu at les a gwell darpariaeth o wasanaethau cyhoeddus.

### Datblygu Cynaliadwy

Gwneud pethau nawr mewn ffordd sydd yn ystyried yr effaith ar bobl fydd yn byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r Deddf yn cyflawni un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i roi statws statudol i bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Mae'n darparu ar gyfer **fframwaith** i wella llesiant pobl Cymru, gan wella gwasanaethau cyhoeddus drwy **weithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol, hyrwyddo Gwaith Teg a Chaffael Cyhoeddus sy'n Gymdeithasol Gyfrifol**.

# Prif ddarpariaethau'r Ddeddf

| | |
|---|---|
| **Sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol** | Mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG) yn gorff cynghori statudol teiran, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, ac yn cynnwys aelodau o blith amrywiaeth o bartneriaid cymdeithasol sy'n cynrychioli cyflogwyr a gweithwyr yng Nghymru. |
| **Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol statudol ar gyrff cyhoeddus penodol** | Rhaid i gyrff cyhoeddus a restrir o dan adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Deddf 2015') gymryd pob cam rhesymol i geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig, neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) â chynrychiolwyr eraill eu staff:<br><br>wrth bennu amcanion llesiant o dan adran 3(2)(a) o Ddeddf 2015, ac<br><br>wrth wneud penderfyniadau strategol am y camau rhesymol y mae'r corff yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf 2015. |
| **Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol statudol ar Weinidogion Cymru** | Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ag aelodau sy'n cynrychioli cyflogwyr a gweithwyr drwy'r CPG wrth wneud penderfyniadau strategol am y camau rhesymol y maent yn eu cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant o dan Ddeddf 2015. |
| **Diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** | Drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith teilwng' yn y nod llesiant presennol i gyflawni 'Cymru lewyrchus', bydd angen i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf 2015 ystyried 'gwaith teg' wrth bennu a chyhoeddi amcanion llesiant a fydd yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan y corff cyhoeddus at gyflawni'r nodau llesiant. |
| **Dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol** | Dyletswydd statudol ar awdurdodau contractio penodol i ystyried caffael cymdeithasol gyfrifol a nodir yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio bennu a chyhoeddi amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol a fydd yn sicrhau eu cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant o dan Ddeddf 2015. |
| **Cyrff cyhoeddus penodol i gyflawni dyletswyddau rheoli contractau** | Sicrhau bod deilliannau cymdeithasol gyfrifol yn nod clir drwy ddefnyddio cymalau yn eu contractau sy'n ymwneud â phob rhan o'r cadwyni cyflenwi ar gyfer prosiectau adeiladu mawr. Mae'r ddyletswydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhain gael eu monitro. |
| **Y dyletswyddau i adrodd sydd ar gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru** | Rhaid i Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar eu cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. Rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdodau contractio sydd wedi dyfarnu contractau rhagnodedig gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gaffael. Rhaid i Weinidogion Cymru osod adroddiadau gerbron y Senedd. |

Pennod 2

# Paratoi ar gyfer y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

## Cyflwyniad

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn cyflawni ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i roi partneriaeth gymdeithasol ar sail statudol yng Nghymru. Ar 1 Ebrill 2024 bydd y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol newydd ("y Ddyletswydd") ar gyrff cyhoeddus yn dod i rym yng Nghymru. Mae'r Ddyletswydd wedi'i nodi yn adrannau 15, 16 a 18 Deddf 2023. Mae'n ategu'r dyletswyddau llesiant presennol y mae cyrff cyhoeddus penodol eisoes yn ddarostyngedig iddynt o dan Ran 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Wrth gyflawni datblygu cynaliadwy, bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a restrir o dan adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i'r graddau y bo'n rhesymol, geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig, neu, lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig, cynrychiolwyr gweithwyr eraill, wrth osod eu hamcanion llesiant a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny a osodir o dan adran 3(2) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae adran 16(2) o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn nodi nifer o ofynion penodol sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd y mae rhaid i gorff cyhoeddus gydymffurfio â hwy wrth 'geisio consensws neu gyfaddawd'. Bwriad y gofynion yw sicrhau bod undebau llafur neu gynrychiolwyr eraill staff cyrff cyhoeddus yn cael eu cynnwys yn llawn ac yn briodol pan fydd corff cyhoeddus yn gosod ei amcanion llesiant, neu wrth wneud penderfyniadau strategol ynghylch y camau rhesymol y mae'r corff yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

### Mae'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn datgan y canlynol:

Er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawd rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill ei staff yn y broses o bennu amcanion neu wneud penderfyniadau, drwy (yn benodol) —

(a) ymgynghori â hwy yng nghyfnod ffurfiannol y broses, a (b) eu cynnwys fel arall drwy gydol y broses drwy

- darparu gwybodaeth ddigonol i'w galluogi i ystyried yn briodol yr hyn sy'n cael ei gynnig, a
- darparu amser digonol i'w galluogi i ystyried yn ddigonol yr hyn sy'n cael ei gynnig ac ymateb.

## Diben y Ddyletswydd newydd

Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol pobl yng Nghymru trwy gryfhau rôl partneriaeth gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol. Mae cynnwys cyflogwyr a gweithwyr mewn trafodaethau allweddol ynghylch gwelliannau i lesiant yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a'r arbenigedd unigryw a gynigir gan y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau cyhoeddus wrth fynd i'r afael â heriau a rennir a chwilio am atebion arloesol.

Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau hyn ei chael yw hyrwyddo cydweithredu, cryfhau polisi a gwella canlyniadau, trwy ddeialog rhwng partneriaid cymdeithasol, a gyflawnir mewn partneriaeth gymdeithasol. Mae'r sector cyhoeddus datganoledig yn gyflogwr sylweddol yng Nghymru. Mae'n llywio profiad gwaith y rhai sy'n gweithio ynddo yn uniongyrchol, a gall hefyd gael dylanwad anuniongyrchol ledled y sector cyhoeddus a'r economi ehangach drwy arwain drwy esiampl ar ddulliau blaengar o ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r gweithlu.

Bydd gallu'r cyrff cyhoeddus datganoledig i gyflawni'r swyddogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol honno yn cael ei ategu gan y Ddyletswydd.

## Y Cyrff Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd

Y sefyllfa o fis Rhagfyr 2023 yw ei bod yn ofynnol i bedwar deg wyth o gyrff cyhoeddus a restrir yn adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyflawni'r ddyletswydd llesiant a nodir yn y Ddeddf honno. Y cyrff a restrir o dan adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r cyrff y bydd y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn berthnasol iddynt. Y cyrff cyhoeddus eu hunain sydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Ddyletswydd. Y cyrff a restrir ar hyn o bryd o dan adran 6(1) yw:

- Awdurdodau Lleol (mae'r 4 Cydbwyllgor Corfforaethol a sefydlwyd yn 2021 wedi'u cynnwys ers mis Rhagfyr 2021)
- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Y corff adnoddau naturiol ar gyfer Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru)
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru)
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru (Amgueddfa Cymru)

Ym mis Mehefin 2024, rhestrwyd wyth corff cyhoeddus pellach o dan adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
- Awdurdod Cyllid Cymru
- Trafnidiaeth Cymru
- Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Cymwysterau Cymru

Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol bellach yn berthnasol i bum deg saith (gan gynnwys MEDR) o gyrff cyhoeddus, felly.

- MEDR – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

## Adroddiadau Blynyddol

Mae'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig iddi lunio adroddiad blynyddol i ddangos sut y maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd, y mae'n rhaid ei gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ("CPG") ar gyfer craffu. Mae Adran 18 y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn datgan:

## Adroddiadau Partneriaeth Gymdeithasol

(1) Rhaid i gorff cyhoeddus lunio, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, adroddiad ynglŷn â'r hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd.

(2) Rhaid cytuno ar yr adroddiad gydag undebau llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill ei staff, neu rhaid i'r adroddiad gynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno.

(3) Rhaid i'r corff cyhoeddus gyhoeddi'r adroddiad, a'i gyflwyno i'r CPG, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Nid yw'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn darparu templed ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol.

## Partneriaeth Gymdeithasol: Y Ffordd Gymreig

Mae partneriaethau a chydweithio yn nodweddion unigryw o'r ffordd rydym yn gweithio yng Nghymru. Ers datganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi annog gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol fel ffordd o ddod o hyd i'r atebion gorau i'r heriau sy'n ein hwynebu. Mae'r Ffordd Gymreig a ymgorfforir gan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn dangos potensial ffordd newydd o weithio sy'n dechrau â'r nod o adeiladu consensws a chyfaddawdu ac yn annog cyfranogiad gweithwyr. Mae'n cynrychioli cam cyntaf taith tuag at ffordd fwy cydweithredol, teg a blaengar o ymdrin â chysylltiadau rhwng gweithwyr a chyflogwyr yng Nghymru.

Mae partneriaeth gymdeithasol yn ffordd o weithio sydd wedi'i chynllunio i fynd ar drywydd buddion cyffredin yng nghyd-destun datblygu a gweithredu polisi, neu newid dull gweithredu, ond na chaiff ei defnyddio'n bennaf fel fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, bargeinio ar y cyd neu ymgynghori. Mae'n gweithio ar yr egwyddor sylfaenol y gall cyflogwyr a gweithwyr gyflawni mwy, yn bennaf trwy eu hundebau llafur, drwy weithio gyda'i gilydd mewn ysbryd o gydweithredu a chydweithio. Nod y Ffordd Gymreig o weithredu Partneriaeth Gymdeithasol yw dod o hyd i gonsensws, sy'n wahanol i fargeinio ar sail safbwyntiau neu ddull gwrthwynebol o fynd ati lle mae un ochr yn ennill a'r llall yn colli. Dylai'r ddwy ochr drafod yn ddidwyll. Bydd adegau pan fydd yn amhosibl sefydlu tir cyffredin; ond pan fydd gwrthdaro, dylid ei reoli o fewn diwylliant o barch a datrys problemau. Felly, mae angen i bartneriaethau cymdeithasol greu amgylchedd sy'n annog y rhai sy'n cymryd rhan i fod yn agored gyda'i gilydd a chytuno ar drefniadau gwaith sy'n dderbyniol i'r naill bartner a'r llall, a hynny mewn ysbryd o gydweithredu a chydweithio.

## Partneriaeth Gymdeithasol ar Waith

Mae partneriaeth gymdeithasol yn broses, ond gall yr egwyddorion y'i seiliwyd arnynt helpu i newid ymddygiad a diwylliant. Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), gall gweithio'n gyson mewn partneriaeth gymdeithasol ddatblygu perthnasoedd dibynadwy a meithrin ymddygiadau sy'n hyrwyddo cydweithredu, parch ac ymddiriedaeth, a chynyddu cyfranogiad yn ogystal â darparu buddiannau i'r ddwy ochr. Crëwyd y gwerthoedd a'r ymddygiadau hyn fel pwyntiau cyfeirio ar gyfer partneriaeth gymdeithasol lwyddiannus yng Nghymru ac fe'u disgrifir fel a ganlyn:

| Egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol | Ymrwymiad a rennir |
|---|---|
| Cydweithredu | Llwyddo drwy ddatrys problemau ar y cyd, cyfaddawdu a dod i gonsensws. |
| Parch | Y naill ochr a'r llall yn cydnabod buddiannau dilys a'r posibilrwydd bod buddiannau'n gwrthdaro. |
| Ymddiriedaeth | Perthnasoedd wedi'u seilio ar onestrwydd, diffuantrwydd, tryloywder, a bod yn agored ac yn anhunanol. |
| Llais a Chyfranogiad | Rhannu gwybodaeth, ymgynghori ac ymgysylltu yn rhagweithiol ac mewn da bryd. |
| Buddion Cyffredin | Sicrhau gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus ac i ganlyniadau llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ac i waith teg. |

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd llesiant ar y cyrff cyhoeddus ledled Cymru a restrir ganddi i sicrhau bod datblygiadau yn gynaliadwy. Wrth wneud hynny, rhaid i gyrff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i wneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at y nodau llesiant cenedlaethol, a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r ddolen isod yn rhoi arweiniad i gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar ddiffiniadau allweddol, sut i fynd ati i ddatblygu'n gynaliadwy a deall y nodau llesiant, a sut i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hefyd yn rhoi esboniad o'r dyletswyddau unigol (i gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus) a dyletswyddau ar y cyd, beth yw lle cyrff cyhoeddus o fewn strwythur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a lle mae disgwyl gweld y newidiadau allweddol mewn sefydliadau.

Ewch i: **www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-canllawiau-statudol**

Pennod 3

# Dysgu Ar-lein

Mae pecyn dysgu ar-lein newydd i helpu pobl i ddysgu mwy am fanteision partneriaeth gymdeithasol a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 bellach ar gael drwy'r platfform Dysgu@Cymru.

Mae'r dysgu ar-lein yn darparu mynediad at fodiwlau rhyngweithiol am ddim i helpu i ddysgu mwy am bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r dysgu'n cynnwys tair pennod:

Pennod 1 – Partneriaeth Gymdeithasol – Y Ffordd Gymreig

Pennod 2 – Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Pennod 3 – Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Mae'r platfform yn cynnig cyfle gwych i ddysgu mwy am bartneriaeth gymdeithasol ac ymgorffori partneriaeth gymdeithasol yn eich sefydliad.

Datblygwyd y dysgu ar-lein mewn partneriaeth gymdeithasol ac mae'n darparu dull hyblyg sy'n galluogi dysgwyr i weithio drwy'r pecyn ar eu cyflymder eu hunain.

I gael mynediad i'r dysgu:

- Os oes gennych gyfrif Dysgu@Cymru eisoes, mewngofnodwch a chliciwch ar y ddolen hon: **https://learning.nhs.wales/course/index.php?categoryid=550**
- Os nad oes gennych gyfrif, bydd angen i chi gofrestru yn gyntaf ac yna defnyddio'r ddolen uchod i gael mynediad i'r cwrs. I gofrestru, gwnewch hynny yma: **https://learning.nhs.wales/login/index.php** neu e-bostiwch **eateb@wales.nhs.uk**
- Gall staff GIG Cymru gael mynediad i'r dysgu ar-lein drwy'r Cofnod Staff Electronig (ESR).

Yn ogystal, os yw partneriaid yn defnyddio eu platfform hyfforddi eu hunain, gallwn drafod opsiwn ffeil SCORM – gan gytuno ar system fonitro.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni ar **pgcgt@llyw.cymru**

Pennod 4

# Offeryn Hunanasesu

Pwrpas yr offeryn hwn yw cynnig ffordd syml o asesu effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth.

Mae'n gwirio sefyllfaoedd yn gyflym gan nodi meysydd problemus. Mae hyn yn caniatáu i bartneriaid ganolbwyntio ar gamau adfer sy'n gymesur â difrifoldeb a brys unrhyw broblemau.

I'r rhai sydd ond newydd sefydlu partneriaethau, mae'r offeryn yn darparu rhestr wirio o'r hyn y dylid ei sicrhau a'r hyn y dylid ei osgoi.

Mae wedi'i ddylunio'n benodol i fod yn offeryn datblygiadol yn hytrach na ffordd o asesu perfformiad partneriaethau cymdeithasol yn ganolog.

### Sut gall yr Offeryn Hunanasesu eich helpu chi?

- Mae'n darparu adnoddau i'ch helpu chi i asesu effeithiolrwydd y ffordd rydych chi'n gweithio mewn partneriaeth ar hyn o bryd.
- Mae'n canolbwyntio ar ffyrdd o gryfhau partneriaethau presennol drwy gynnal trafodaethau am broblemau a datrysiadau.
- O'i ddefnyddio dro ar ôl tro, gall eich helpu chi i gofnodi newidiadau o ran gweithio mewn partneriaeth dros gyfnod o amser.
- Gall dynnu sylw at ystod o safbwyntiau amrywiol.
- Ar ei ben ei hun, ni fydd yn gallu dweud wrthych chi sut y dylid ymdrin â'r holl broblemau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth.
- Fodd bynnag, mae'n darparu fframwaith (a geirfa) cyffredin i bartneriaid ddatblygu dull gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau i weithio mewn partneriaeth yn effeithiol.

### Nodweddion Partneriaethau Cymdeithasol Effeithiol

Mae swyddogion yn Llywodraeth Cymru wedi adolygu partneriaeth gymdeithasol ar draws yr Adran.

Gwnaeth yr adolygiad ein helpu ni i ddeall y sefyllfa bresennol yn well a gweithio tuag at argymhellion i annog gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol.

Roedd Cyfnod 2 yr adolygiad hwn yn archwilio'r ymddygiadau, yr egwyddorion a'r perthnasoedd sy'n sail i bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru a cheisiwyd nodi nodweddion buddiol cyffredin sy'n cefnogi partneriaeth gymdeithasol ar lefel genedlaethol.

Dangosodd yr adolygiad fod set o nodweddion sylfaenol cyffredin sy'n sail i bartneriaeth gymdeithasol effeithiol ar lefel genedlaethol yng Nghymru, ni waeth beth fo'r sector. Mae'n ymddangos bod y nodweddion hyn yn darparu'r sbardun angenrheidiol ar gyfer ymgysylltu'n ystyrlon a all arwain at ganlyniadau gwell. Mae'r nodweddion wedi'u rhannu'n bum categori fel a ganlyn:

**1. Eglurder o ran pwrpas ac amcanion y grŵp**

Mae partneriaethau cymdeithasol sy'n seiliedig ar bwrpas a nodau sydd wedi'u diffinio'n glir yn fwy tebygol o gynhyrchu a chynnal gweithgarwch ymgysylltu effeithiol. Mae eglurder yn helpu i osod y cyd-destun a'r paramedrau ar gyfer ymgysylltu ac yn sicrhau bod pob partner yn deall ei rôl ei hun a rôl eraill. Mae hyn hefyd yn helpu i osod disgwyliadau'r unigolyn a'r grŵp ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

**2. Ymgysylltu'n gynnar, yn barhaus ac yn gyson rhwng partneriaid**

Mae partneriaeth gymdeithasol yn dibynnu ar lefelau uchel o ymwneud a chyfranogiad gan bob parti. Mae'n fuddiol iawn felly i bartneriaid ymgysylltu'n ystyrlon ac yn barhaus o'r cychwyn cyntaf a thrwy gydol y broses datrys problemau / datblygu polisi. Mae hyn yn atgyfnerthu elfen gydweithredol gweithio mewn partneriaeth ac yn rhoi gwerth ar fewnbwn yr holl bartneriaid.

**3. Ymrwymiad i egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a chydweithio**

Mae egwyddorion partneriaeth gymdeithasol yn cynnwys cydweithredu, parch, ymddiriedaeth, llais a chyfranogiad, a mynd ar drywydd buddion cyffredin. Mae mynd ar drywydd buddion cyffredin yn ganolog i'r cysyniad o bartneriaeth gymdeithasol ac yn ei wahaniaethu oddi wrth fathau eraill o ymgysylltu. Mae'n dibynnu ar amgylchedd lle y mae'r holl bartneriaid yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu yn gyfartal ac mae perthnasoedd gwaith anffurfiol a ffurfiol cadarn yn sail iddo. Yn ogystal â hynny, pan fo perthnasoedd gwaith yn rhai effeithiol, ymddengys bod yr ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth yn ddigon cadarn i wrthsefyll y mwyafrif o heriau.

**4. Dealltwriaeth glir o sut y mae gwybodaeth a phenderfyniadau yn cael eu rhaeadru a'u rhoi ar waith**

Mewn partneriaethau cymdeithasol llwyddiannus, mae'r rhain yn sianeli dwyffordd sy'n rhannu gwybodaeth a phenderfyniadau i lawr i bob lefel, ac yn dychwelyd adborth a safbwyntiau yn ôl gan y rhai sy'n gweithio ar lawr gwlad, gan ei gwneud felly yn broses ystyrlon i weithwyr.

**5. Trefniadau ffurfiol a pharodrwydd i adolygu llwyddiant**

Mae trefniadau clir ar gyfer monitro ac adolygu llwyddiant yn hanfodol i gynnal yr ymrwymiad i bartneriaeth gymdeithasol rhwng partneriaid. Mae cynnal adolygiadau cyfnodol yn darparu cyfleoedd rheolaidd i gryfhau partneriaeth gymdeithasol drwy nodi meysydd y gellir eu gwella neu ddysgu o enghreifftiau o arferion da.

## Sut i ddefnyddio'r Offeryn

Mae'r Offeryn hwn wedi'i ddatblygu i'w ddefnyddio naill ai ar gyfer:

- rhoi ffocws wrth gynnal trafodaethau rhwng partneriaid, neu
- yn ystod gweithdai a hwylusir.

## Paratoi

Ar ddechrau'r broses, mae'n bwysig bod partneriaid yn cytuno ar y rhesymau dros ddefnyddio'r Offeryn. A yw'r broses i fod yn un ddatblygiadol yn bennaf, yn fwy o wiriad cyffredinol, neu'n rhan o raglen adfer fwy helaeth?

Mae angen sicrhau'r rhai sy'n cymryd rhan bod mynd i'r drafferth i gynnal yr asesiad yn rhywbeth buddiol, a phwysleisio y gallant fod, ac y dylent fod, yn agored ac yn onest wrth ymateb.

Gall agor y drafodaeth gychwynnol hon alluogi partneriaid unigol i fod yn fwy gonest eu barn ynglŷn â sut y mae'r bartneriaeth yn gweithio.

Cytunwch ar y dechrau a oes angen hwyluso'r broses. Gellir rhoi hyn ar waith yn fewnol. Ar adegau, ac yn arbennig pan fo disgwyl i'r broses fod yn anodd neu'n sensitif, efallai y byddai'n well defnyddio hwylusydd allanol.

## Cwblhau'r Asesiad

Yn gyntaf, dylai pob partner gwblhau'r asesiad yn unigol gan nodi eu hymatebion i set o ddatganiadau sydd wedi'u grwpio o dan bob un o'r chwe phennawd.

Yna, bydd angen i bartneriaid rannu a thrafod eu hasesiadau unigol, gan archwilio meysydd o safbwyntiau cyffredin neu wahanol ynglŷn â chryfderau a gwendidau'r bartneriaeth.

Ar y cyd, cytunwch ar y sgoriau ar gyfer pob un o'r chwe adran. Ar dudalen 8, gweler grid i ddehongli'r canlyniadau.

Ar y cyd, dylech hefyd ystyried sut y byddech yn pwysoli'r chwe maes o ran eu harwyddocâd presennol ar gyfer eich partneriaeth – gan ystyried ei natur a'i chyfnod datblygu (tudalen 9). Bydd hyn o gymorth i flaenoriaethu ble mae angen unrhyw gamau adfer.

Dylai'r offeryn asesu roi syniad clir ynglŷn â natur a graddfa'r problemau, ble mae angen gweithredu fwyaf a ble mae ei angen fwyaf ar frys.

## Defnyddio'r canfyddiadau

Gall partneriaid edrych y tu hwnt i'w sgoriau ac archwilio sylwadau ynglŷn ag elfennau unigol a'u pwysoli o ran arwyddocâd. Hanfod yr adborth a'r dadansoddiad hwn yw deall cryfderau a gwendidau partneriaethau yn well ac, os oes angen, cynllunio camau adfer. Yr hyn y mae'r Offeryn hwn yn ei wneud yw amlygu meysydd syml i ganolbwyntio arnynt gan dargedu ymdrechion ac adnoddau.

Yr hyn a amlygir yn rhwydd yw lle y mae cytundeb neu anghytundeb eang ymysg partneriaid. Mae'r graddau y mae angen archwilio'r ymatebion – a'r ffordd y cânt eu harchwilio – yn dibynnu'n helaeth ar lefel y cytundeb, natur y canfyddiadau, a'r arwyddocâd a roddir gan bartneriaid i'r canfyddiadau.

Felly, os yw'r holl bartneriaid yn cytuno bod y bartneriaeth yn weddol iach ar draws pob maes, gan gynnwys y rhai y cytunir yn gyffredinol eu bod fwyaf arwyddocaol, nid oes angen cynllunio camau gweithredu y tu hwnt i gytuno ar ba bryd a sut y dylid cynnal y gwiriad nesaf.

Fodd bynnag, os yw rhai partneriaid o'r farn nad yw'r bartneriaeth yn un iach mewn rhai agweddau – ac yn arbennig os yw hynny'n wir mewn meysydd y cytunir yn gyffredinol eu bod yn rhai arwyddocaol – bydd angen cynnal archwiliad manylach pellach. Yn ddibynnol ar sensitifrwydd y materion a maint y partneriaethau, y ffordd orau o gynnal yr archwiliad hwn gan amlaf yw mewn gweithdy adborth wedi'i hwyluso.

Prif nod yr Offeryn hwn yw galluogi asesiad generig o weithio mewn partneriaeth. Ni all gynnig awgrymiadau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd mewn unrhyw bartneriaeth.

Pan fo rhai problemau neu wendidau wedi'u nodi, dylai cynllunio camau gweithredu ganolbwyntio ar y meysydd hyn. Pan nad oes llawer o sensitifrwydd ynghlwm wrth y materion a godwyd – boed ar lefel unigolion neu'r sefydliad – gellir cynnal dadansoddiad manylach mewnol ac anffurfiol o'r hyn sy'n sail i ganfyddiadau'r asesiad. Pan fo mwy o sensitifrwydd, gallai defnyddio hwylusydd allanol fod yn ddewis gwell.

# Cynnal yr Asesiad

**Yn y tudalennau a ganlyn, gofynnir i unigolion ystyried cyfres o ddatganiadau am y Bartneriaeth – yn ei chyfanrwydd. Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r datganiadau hyn drwy dicio, neu farcio'r blychau priodol.**

## Eglurder a Phwrpas

| | 1 Anghytuno'n llwyr | 2 Anghytuno | 3 Ansicr | 4 Cytuno | 5 Cytuno'n llwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae gan ein partneriaeth nod clir | | | | | |
| Mae gennym nodau, amcanion a chanlyniadau gwasanaeth cyffredin sydd wedi'u diffinio yn glir | | | | | |
| Yn fy marn i, mae dealltwriaeth gyffredin o'r rhain, ac ymrwymiad iddynt, ymysg yr holl bartneriaid | | | | | |
| Mae llinellau cyfathrebu, rolau a disgwyliadau partneriaid yn glir | | | | | |
| Mae'r holl bartneriaid yn barod i rannu rhai o'u syniadau, eu hadnoddau, eu dylanwad a'u pŵer i gyflawni nodau ac amcanion y bartneriaeth | | | | | |
| Sgôr | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | |

## Dull Partneriaeth Gymdeithasol

| | 1 Anghytuno'n llwyr | 2 Anghytuno | 3 Ansicr | 4 Cytuno | 5 Cytuno'n llwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn fy marn i, mae ymrwymiad clir i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol a hynny o lefelau uchaf pob un o'r sefydliadau partner | | | | | |
| Mae perchnogaeth eang o'r bartneriaeth ar draws, ac o fewn, yr holl sefydliadau partner | | | | | |
| Mae dealltwriaeth glir o gyfraniadau pob partner tuag at gyflawni nodau'r bartneriaeth | | | | | |
| Mae buddion canfyddedig y bartneriaeth yn gorbwyso'r costau canfyddedig | | | | | |
| Mae llwyddiannau helaeth wedi'u cyflawni o fewn y bartneriaeth yn y gorffennol | | | | | |
| Sgôr | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | |

## Perthnasoedd

| | 1 Anghytuno'n llwyr | 2 Anghytuno | 3 Ansicr | 4 Cytuno | 5 Cytuno'n llwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae hanes o gysylltiadau da rhwng y partneriaid | | | | | |
| O fewn y bartneriaeth, gallaf rannu safbwyntiau gwahanol a chredaf fod eraill yn gallu gwneud hynny hefyd | | | | | |
| Ceir strwythurau neu weithdrefnau ffurfiol ar gyfer datrys anghydfodau | | | | | |
| Mae ffyrdd anffurfiol o wneud hyn hefyd | | | | | |
| Mae'r ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth yn ddigon cadarn i wrthsefyll mwyafrif yr heriau | | | | | |
| Sgôr | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | |

## Egwyddorion a Gwerthoedd

| | 1<br>Anghytuno'n llwyr | 2<br>Anghytuno | 3<br>Ansicr | 4<br>Cytuno | 5<br>Cytuno'n llwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r egwyddorion / gwerthoedd / ymddygiadau a ddisgwylir gan aelodau yn eglur ac wedi'u deall | | | | | |
| Mae partneriaid yn rhannu'r ymrwymiad i lwyddo drwy ddatrys problemau, cyfaddawdu a dod i gytundeb ar y cyd | | | | | |
| Mae perthnasoedd yn seiliedig ar uniondeb, gonestrwydd, tryloywder, bod yn agored ac anhunanoldeb | | | | | |
| Mae ymddiriedaeth ddigonol o fewn y bartneriaeth i oroesi unrhyw ddrwgdybiaeth sy'n codi mewn mannau eraill | | | | | |
| Yn fy marn i, mae cyfranogiad cyfartal ar waith sy'n seiliedig ar rannu gwybodaeth, ymgynghori ac ymgysylltu yn rhagweithiol ac yn amserol | | | | | |
| Sgôr | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | |

## Gweithredu Cydweithredol

| | 1 Anghytuno'n llwyr | 2 Anghytuno | 3 Ansicr | 4 Cytuno | 5 Cytuno'n llwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae strwythur gweinyddol, cyfathrebu a gwneud penderfyniadau y bartneriaeth mor syml â phosibl | | | | | |
| Mae pob partner yn rhan o'r gwaith cynllunio a gosod blaenoriaethau ar gyfer gweithredu cydweithredol | | | | | |
| Mae gan bob partner y dasg o gyfathrebu a hyrwyddo'r bartneriaeth yn eu sefydliadau eu hunain / i'w haelodau | | | | | |
| Mae dealltwriaeth glir o sut y mae gwybodaeth a phenderfyniadau gan y bartneriaeth yn cael eu rhoi ar waith ar lefel y gweithle | | | | | |
| Mae rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau partneriaid ar gyfer gweithredu cydweithredol wedi'u diffinio a'u deall yn glir gan yr holl bartneriaid | | | | | |
| Sgôr | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | |

## Adolygu Llwyddiant

| | 1 Anghytuno'n llwyr | 2 Anghytuno | 3 Ansicr | 4 Cytuno | 5 Cytuno'n llwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae gan y bartneriaeth drefniadau clir ar gyfer monitro ac adolygu pa mor llwyddiannus y cyflawnir ei hamcanion | | | | | |
| Mae trefniadau clir i adolygu sut y mae'r bartneriaeth ei hun yn gweithio | | | | | |
| Mae trefniadau clir i sicrhau bod trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn cael eu hadolygu a, lle bo angen, eu diwygio | | | | | |
| Gall y bartneriaeth ddangos neu ddogfennu canlyniadau ei gwaith ar y cyd | | | | | |
| Mae angen clir, ac ymrwymiad, i barhau â'r bartneriaeth yn y tymor canolig | | | | | |
| Sgôr | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | |

## Deall y canlyniadau

Yn syml, gallwch ddehongli'r canlyniadau fel a ganlyn:

### Sgoriau Asesu

| | <10 | 11-15 | 16-20 | 21-25 |
|---|---|---|---|---|
| Eglurder a Phwrpas | Mae diffyg eglurder neu ymdeimlad o bwrpas o fewn y bartneriaeth. | Ychydig o eglurder a phwrpas sydd yna. | Mae dealltwriaeth resymol o bwrpas. | Mae pwrpas y bartneriaeth yn glir iawn. |
| Dull Partneriaeth Gymdeithasol | Isel iawn yw'r gydnabyddiaeth a'r derbyniad o'r angen am bartneriaeth gymdeithasol. | Mewn rhai meysydd, cyfyngedig yw'r gydnabyddiaeth a'r derbyniad o'r angen am bartneriaeth gymdeithasol. | Caiff yr angen am bartneriaeth gymdeithasol ei gydnabod a'i dderbyn. | Mae lefel uchel iawn o gydnabyddiaeth a derbyniad o'r angen am bartneriaeth gymdeithasol. |
| Perthnasoedd | Mae'r berthynas ymhlith partneriaid yn wael. | Mae angen meithrin perthnasoedd. | Mae perthnasoedd da ar waith. | Mae'r perthnasoedd yn gryf iawn ac yn seiliedig ar ymddiriedaeth gyffredin. |
| Egwyddorion a Gwerthoedd | Nid yw'r egwyddorion wedi'u deall yn dda ac mae angen eu datblygu. | Mae angen gwaith i ymgorffori egwyddorion gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol. | Mae'r egwyddorion wedi'u deall a cheir arwyddion eu bod yn cael eu gwreiddio. | Mae'r egwyddorion wedi'u deall a'u gwreiddio'n dda iawn. |
| Gweithredu Cydweithredol | Mae'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn wael. | Nid yw'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn ddigon clir a chadarn. | Mae'r trefniadau ar gyfer cydweithio yn weddol glir a chadarn. | Mae trefniadau clir a chadarn yn arwain at weithredu cydweithredol. |
| Adolygu Llwyddiant | Ar y cyfan, mae'r gweithdrefnau monitro yn wael neu nid oes rhai ar waith o gwbl. | Gallai'r bartneriaeth wella sut y mae'n monitro ac yn dysgu o'i pherfformiad. | Mae'r bartneriaeth yn monitro, yn mesur ac yn dysgu o'i pherfformiad yn weddol dda. | Mae'r bartneriaeth yn monitro, yn mesur ac yn dysgu o'i pherfformiad yn dda iawn. |

Pennod 5

# Darllen Pellach a Manylion Cyswllt

## Darllen pellach

Animeiddiad: Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023: **https://youtu.be/C-IzypDEc2Q**

Animeiddiad: Partneriaeth Gymdeithasol – Y Ffordd Gymreig **https://youtu.be/Cy0B3pjQ3JU**

Animeiddiad: Caffael Cymdeithasol Gyfrifol: **https://youtu.be/3E5J58XsMJg?si=YaF_LnBi7je_hsvi**

Animeiddiad: Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol: **https://youtu.be/wYD8QSRz6OA**

Astudiaethau Achos: **https://www.llyw.cymru/deddf-partneriaeth-gymdeithasol-chaffael-cyhoeddus-cymru?**

Cynadleddau: ffilmiau byrion

Abertawe: **www.youtube.com/watch?v=XwZ7uFJu160**

Caerdydd: **www.youtube.com/watch?v=gxDOFZSVJeU**

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): Fersiwn Hawdd ei ddeall: **www.llyw.cymru/bil-partneriaeth-gymdeithasol-chaffael-cyhoeddus-cymru-fersiwn-hawdd-ei-ddeall**

Cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr: **https://www.llyw.cymru/tanysgrifio-i-gylchlythyr-y-bartneriaeth-gymdeithasol**

Fideo rhanddeiliaid: **www.youtube.com/watch?v=p3nzcipgJWY**

Gwefan Partneriaeth Gymdeithasol: **www.gov.wales/social-partnership-andpublic-procurement-wales-act**

Gwefan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (SPC): **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-gymdeithasol**

## Cysylltwch â ni

Gwefan: **www.llyw.cymru**

E-bost: **PGCGT@llyw.cymru**

Ffôn: 0300 0604400

X: @WGEconomy

LinkedIn: **https://uk.linkedin.com/showcase/llc-economi-wg-economy**

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023: **www.legislation.gov.uk/asc/2023/1/contents/enacted**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: **www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51448, ISBN 978-1-83715-239-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg